



Polisi Cwcis

TGP CYMRU | 12 Heol y Gogledd Caerdydd CF10 3DY



TGP Cymru Polisi Cwcis Fersiwn 1 Ebrill 2018 Awdur: Rhiannon Beaumont-Walker I'w Adoiygu: 2021

TGP Cymru yw enw gwaith Tros Gynnal Plant. Rhif Elusen Gofrestredig 1099878. Wedi cofrestru fel cwmni cyfyngedig drwy warant rhif 04422485 (Cymru a Lloegr). Swyddfa Gofrestredig: 12 Heol y Gogledd, Caerdydd, CF10 3DY

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Cwcis technegol
3. Cwcis trydydd parti
4. Caniatâd
5. Perchennog a rheolwr data
6. Diffiniadau
7. Gwybodaeth gyfreithiol

1. Cyflwyniad

Mae cwcis yn cynnwys rhannau o god wedi'i osod yn y porwr sy'n cynorthwyo'r Perchennog i ddarparu'r Gwasanaeth yn ôl y dibenion a ddisgrifiwyd. Efallai y bydd rhai dibenion gosod Cwcis hefyd yn gofyn am ganiatâd y Defnyddiwr.

Lle mae gosod Cwcis yn seiliedig ar ganiatâd, gellir tynnu caniatâd o'r fath yn ôl ar unrhyw adeg drwy ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir yn y ddogfen hon.

2. Cwcis Technegol a Chwcis a ddefnyddir at ddibenion agregu ystadegol

- Gweithgarwch yn gwbl angenrheidiol ar gyfer gweithrediad y Gwasanaeth
Mae TGP Cymru yn defnyddio Cwcis i arbed sesiwn y Defnyddiwr ac i gynnal gweithgareddau eraill sydd yn gwbl angenrheidiol ar gyfer gweithrediad eu gwefan, er enghraifft mewn perthynas â dosraniad traffig.
- Gweithgarwch ynghylch arbed dewisiadau, optimeiddiad, ac ystadegau
Mae TGP Cymru yn defnyddio Cwcis i arbed dewisiadau pori ac i optimeiddio profiad pori y Defnyddiwr. Ymhlith y Cwcis hyn, er enghraifft, mae'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer pennu dewisiadau iaith ac arian cyfred neu ar gyfer rheoli ystadegau parti cyntaf a gyflogir yn uniongyrchol gan TGP Cymru.

3. Mathau eraill o Gwcis neu drydydd partiön sy'n gosod Cwcis

Mae rhai o'r gwasanaethau isod yn casglu ystadegau ar ffurf di-enw ac wedi'u agregu ac efallai na fydd caniatâd y Defnyddiwr yn ofynnol, neu efallai y bydd yn cael ei reoli'n uniongyrchol gan TGP Cymru - yn dibynnu ar sut maen nhw'n cael eu disgrifio - heb gymorth trydydd partiön.

Os rhestrir unrhyw wasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan drydydd parti ymhlith yr offer isod, gellir defnyddio'r rhain i olrhain arferion pori Defnyddwyr – yn ychwanegol at yr wybodaeth a bennir yma a heb yn wybod i'r Perchennog. Dylech gyfeirio at bolisi preifatrwydd y gwasanaethau a restrir am wybodaeth fanwl.

- Dadansoddeg
Mae gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr adran hon yn galluogi'r Perchennog i fonitro a dadansoddi traffig ar y we a gellir eu defnyddio i gadw golwg ar ymddygiad Defnyddwyr.

Google Analytics (Google Inc.)

Mae Google Analytics yn wasanaeth dadansoddi'r we a ddarperir gan Google Inc. ("Google"). Mae Google yn defnyddio Data a gesglir i olrhain ac archwilio'r defnydd o wefan TGP Cymru, i baratoi adroddiadau ar ei weithgarwch a'u rhannu gyda gwasanaethau eraill Google.

Efallai y bydd Google yn defnyddio'r Data a gesglir i roi gwedd bersonol i hysbysebion ei rhwydwaith hysbysebu ei hun, a'u gosod mewn cyd-destun.

TGP Cymru Polisi Cwcis Fersiwn 1 Ebrill 2018 Awdur: Rhiannon Beaumont-Walker I'w Adolygu: 2021

TGP Cymru yw enw gwaith Tros Gynnal Plant. Rhif Elusen Gofrestredig 1099878. Wedi cofrestru fel cwmni cyfyngedig drwy warant rhif 04422485 (Cymru a Lloegr). Swyddfa Gofrestredig: 12 Heol y Gogledd, Caerdydd, CF10 3DY

Data Personol a gesglir: Data Defnyddio a Chwcis.

Man prosesu: Unol Daleithiau – [Polisi Preifatrwydd](#) - [Optio Allan](#). Cyfranogwr Privacy Shield

4. Sut i roi caniatâd i osod Cwcis neu dynnu caniatâd yn ôl

Yn ogystal â'r hyn a nodir yn y ddogfen hon, gall y Defnyddiwr reoli'r dewisiadau ar gyfer Cwcis yn uniongyrchol yn eu porwr eu hunain ac – er enghraifft – atal trydydd partïon rhag gosod Cwcis.

Drwy ddewisiadau porwr, mae hefyd yn bosibl cael gwared ar Gwcis sydd wedi'u gosod yn y gorffennol, gan gynnwys y Cwcis a allai fod wedi arbed y caniatâd cychwynnol ar gyfer gosod Cwcis gan y wefan hon.

Er enghraifft, gall defnyddwyr ddod o hyd i wybodaeth am sut i reoli Cwcis yn y porwyr sy'n cael eu defnyddio'n fwyaf cyffredin yn y cyfeiriadau canlynol: [Google Chrome](#), [Mozilla Firefox](#), [Apple Safari](#), [Microsoft Edge](#) a [Microsoft Internet Explorer](#).

O ran Cwcis wedi'u gosod gan drydydd partïon, gall Defnyddwyr reoli eu dewisiadau a thynnu eu caniatâd yn ôl drwy glicio'r ddolen optio allan cysylltiedig (os oes un yn cael ei darparu), drwy ddefnyddio'r dulliau a nodwyd ym mholisi preifatrwydd y trydydd parti, neu drwy gysylltu â'r trydydd parti.

Er gwaethaf yr uchod, mae'r Perchennog yn hysbysu y gall Defnyddwyr ddilyn y cyfarwyddiadau a nodwyd ar y mentrau cysylltiedig gan yr [EDAA](#) (UE), [Network Advertising Initiative](#) (UDA) a [Digital Advertising Alliance](#) (UDA), [DAAC](#) (Canada), [DDAI](#) (Japan) neu wasanaethau eraill tebyg. Mae mentrau o'r fath yn galluogi Defnyddwyr i ddewis eu dewisiadau olrhain ar gyfer y rhan fwyaf o ddulliau hysbysebu. Mae'r Perchennog felly'n awgrymu bod Defnyddwyr yn defnyddio'r adnoddau hyn yn ogystal â'r wybodaeth a ddarperir yn y ddogfen hon.

5. Perchennog a Rheolwr Data

TGP Cymru
12 Heol y
Gogledd
Caerdydd CF10
3DY

E-bost perchennog: admin@tgpcymru.org.uk

Gan na all TGP Cymru reoli gosod cwcis a systemau olrhain eraill gan drydydd partïon drwy'r gwasanaethau a ddefnyddir ar wefan TGP Cymru yn dechnegol, dylid ystyried unrhyw gyfeiriadau at Gwcis a systemau olrhain a osodwyd gan drydydd partïon yn ddangosol. Er mwyn cael y wybodaeth gyflawn, gofynnir i'r Defnyddiwr ymgynghori â'r polisi preifatrwydd ar gyfer y gwasanaethau trydydd parti perthnasol a restrir yn y ddogfen hon.

O ystyried cymhlethdod gwrthrychol ynghylch nodi technolegau yn seiliedig ar Gwcis, anogir Defnyddwyr i gysylltu â TGP Cymru petaent yn dymuno cael rhagor o wybodaeth am y defnydd o gwcis gan TGP Cymru.

6. Diffiniadau

Data Personol (neu Ddata)

Unrhyw wybodaeth sy'n galluogi partïon i adnabod person naturiol neu'n eu gwneud yn adnabyddadwy - yn uniongyrchol, yn anuniongyrchol, neu mewn cysylltiad ag unrhyw wybodaeth arall - gan gynnwys rhif adnabod personol.

Data Defnyddio

Gwybodaeth a gesglir yn awtomatig drwy TGP Cymru (neu wasanaethau trydydd parti a ddefnyddir gan TGP Cymru), a all gynnwys: cyfeiriadau IP neu enwau parth y cyfrifiaduron a ddefnyddir gan y Defnyddwyr sy'n defnyddio TGP Cymru, cyfeiriadau URI (Dynodwr Adnoddau Unffurf), amser y cais, y dull a ddefnyddiwyd i gyflwyno cais i'r gweinydd, maint y ffeil a dderbyniwyd mewn yn ymateb, y cod rhifol sy'n nodi statws ateb y gweinydd (canlyniad llwyddiannus, gwall, ac ati), mamwlad, nodweddion y porwr a'r system weithredu a ddefnyddir gan y Defnyddiwr, manylion amser amrywiol fesul ymweliad (e.e. yr amser a dreulir ar bob tudalen yn y Rhaglen) a'r manylion am y llwybr a ddilynwyd ym mhob Rhaglen gan gyfeirio'n arbennig at ddilyniant y tudalennau yr ymwelwyd â nhw, a pharamedrau eraill am system gweithredu'r ddyfais a/neu amgylchedd TG y Defnyddiwr.

Defnyddiwr

Yr unigolyn sy'n defnyddio gwefan TGP Cymru sydd, oni nodir fel arall, yn cyd-daro â'r Gwrthrych Data.

Gwrthrych Data

Y person naturiol y mae'r Data Personol yn cyfeirio atynt.

Prosesydd Data (neu Oruchwyliwr Data)

Y person naturiol neu gyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall sy'n prosesu Data Personol ar ran y Rheolydd, fel y disgrifir yn y polisi preifatrwydd hwn.

Rheolwr Data (neu Berchennog)

Y person naturiol neu gyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd ag eraill, sy'n pennu dibenion a dulliau prosesu'r Data Personol, gan gynnwys y mesurau diogelwch sy'n ymwneud â gweithrediad a defnydd TGP Cymru. Y Rheolwr Data, oni bai y nodir fel arall, yw Perchennog TGP Cymru.

TGP Cymru (neu'r Wefan hon)

Y dulliau a ddefnyddir i gasglu a phrosesu Data Personol y Defnyddiwr.

Gwasanaeth

Y gwasanaeth a ddarperir gan TGP Cymru fel y'i disgrifir mewn termau cymharol (os ar gael) ac ar y safle/rhaglen hon.

Yr Undeb Ewropeaidd (neu yr UE)

Oni nodir yn wahanol, mae pob cyfeiriad a wneir yn y ddogfen hon at yr Undeb Ewropeaidd yn cynnwys holl aelod-wladwriaethau presennol yr Undeb Ewropeaidd ac Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Cwcis

Setiau bach o ddata sy'n cael eu storio yn nyfais y Defnyddiwr.

7. Gwybodaeth gyfreithiol

Paratowyd y datganiad preifatrwydd hwn yn seiliedig ar ddarpariaethau nifer o ddeddfwriaethau, gan gynnwys Erth. 13/14 Rheoliad (UE) 2016/679 (Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol).

Mae'r polisi preifatrwydd hwn yn ymwneud â TGP Cymru yn unig, os na nodir fel arall yn y ddogfen hon. Dyddiad diweddaru diwethaf: Gorffennaf 06, 2018